# Hyfforddai Cynllunio:
# Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor-byr

## Pecyn Recriwtio





www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

CYNGOR GWYNEDD

# Croeso

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais am y swydd bwysig yma.

Mae Gwynedd yn sir arbennig, ac mae'r Cyngor yn awyddus i weld ein cymunedau a phobl y sir yn ffynnu. Fel rhan o'r uchelgais yma, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau fod pobl Gwynedd yn gallu cael mynediad at dai addas yn eu cymunedau.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal gwaith ymchwil manwl ar reoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau a amlygodd difrifoldeb y broblem. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi wedi cyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer cynorthwyo i reoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Golyga hyn fod modd, lle mae tystiolaeth yn dangos yr angen, i gynghorau sir sefydlu a gweithredu ar Gyfarwyddyd Erthygl 4. Mae'r Cyngor wedi gosod Rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4, ac wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ac os cadarnheir y Cyfarwyddyd Erthygl 4, bydd angen derbyn caniatâd cynllunio i newid defnydd tai preswyl (prif fan preswyl) i'w ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr ac ail gartref.

Gan fod y newid hwn yn ddigynsail, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith yn ardal Beilot Dwyfor yn benodol. Mae'r Cyngor wrthi'n sefydlu uned benodol a fydd yn gyfrifol am gyflwyno a gweithredu'r newidiadau arloesol hyn yn ardal Gynllunio'r Awdurdod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian cyfatebol i gefnogi costau adnoddau gweithredu cyfarwyddyd cyntaf Erthygl 4 o'r fath yng Nghymru. Bydd Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn rhannu'n rhagweithiol yr hyn a ddysgwyd o'r dull digynsail hwn yn yr ardal beilot.



# Hysbyseb Swydd: Hyfforddai Cynllunio (Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor-byr)

## Swydd Dros-Dro tan Mawrth 2026

**£29,269 - £31,364 yn ogystal â chyfraniad pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae Cyngor Gwynedd yn sefydlu uned benodol newydd fydd yn ymdrin gyda'r dyletswyddau newydd ddaw yn sgil gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ardal yr Awdurdod.

Mae'n debyg mai Gwynedd fydd yr Awdurdod Cynllunio cyntaf yng Nghymru i weithredu'r newidiadau arloesol yn y maes cynllunio. Fel aelod o'r tîm newydd yma, rydym yn awyddus i benodi unigolyn fydd yn gallu gwneud cyfraniad i'r gwaith er budd cymunedau Gwynedd.

Bydd y rôl yma yn ymwneud â phob agwedd o'r maes cynllunio yng nghyswllt ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

Mae holl fanylion y swydd, gwybodaeth am fuddion gweithio i'r Cyngor, a manylion i ymgeisio i weld ar y wefan **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Yn y cyfamser, os hoffech gael sgwrs anffurfiol am unrhyw ran o'r swydd, cysylltwch â Keira Sweenie, Rheolwr Cynllunio (keiraannsweenie@gwynedd.llyw.cymru) yn y lle cyntaf.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

**Dyddiad cau: 10am ar ddydd Gwener, 3 Mai**



# Beth fydd y rôl?

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau fod datblygiadau o fewn y sir yn cael eu llunio er budd ein cymunedau. Bydd yr Hyfforddai Cynllunio yn ymuno gyda thîm ymroddgar, gan weithio a dysgu ochr-yn-ochr gyda swyddogion proffesiynol.

Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn cael profiad o weithio fel rhan o uned newydd fydd yn ymdrin gyda maes cyffrous ynghlwm â gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i geisio rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr ar ein cymunedau.

Byddwch hefyd yn magu profiad a sgiliau proffesiynol tra'n ennill cyflog a dysgu gan weithio ochr-yn-ochr gyda swyddogion profiadol yn y maes rheolaeth datblygu (ceisiadau cynllunio), polisi cynllunio, gorfodaeth cynllunio, cadwraeth adeiladu a mwynau a gwastraff.



# Swydd Ddisgrifiad

**PWRPAS Y SWYDD**

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Cynorthwyo gyda darparu gwasanaeth cynllunio ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Cyngor Gwynedd.

**CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU (e.e. staff, cyllid, offer)**

- Cynorthwyo gyda gweithredu ar ddyletswyddau sydd yn ymwneud a darparu gwasanaeth cynllunio effeithiol.
- Cyfrifoldeb am offer cyfrifiadurol personol.



# Swydd Ddisgrifiad

**PRIF DDYLETSWYDDAU**

- Cynorthwyo gyda gweithredu ar ddyletswyddau rheolaeth datblygu a chydymffurfiaeth gan gynnwys delio gyda ceisiadau am gyngor a cheisiadau cynllunio, paratoi adroddiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ac adroddiadau dirprwyedig.
- Cynorthwyo gyda prosesu ceisiadau cynllunio a cheisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais yn effeithiol ac effeithlon yn unol ag anghenion statudol a pholisïau a chanllawiau lleol.
- Cynorthwyo gyda chyflwyno adroddiadau mewn pwyllgorau cynllunio, ymweliadau cynllunio a chyfarfodydd perthnasol fel bo'r angen.
- Cynorthwyo gyda paratoi datganiadau ac adroddiadau ar gyfer apeliadau cynllunio a chynrychioli'r Awdurdod fel tyst proffesiynol mewn apeliadau, gwrandawiadau ac ymchwiliadau cyhoeddus.
- Cynorthwyo gydag archwilio achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda rheoliadau / deddfau cynllunio.
- Cynorthwyo gyda delio a chyfrannu at y gwaith o ymdrin ag achosion ac apeliadau gorfodaeth fel bo'r angen i gynnwys paratoi adroddiadau a chynrychioli'r Awdurdod fel tyst proffesiynol mewn apeliadau, gwrandawiadau, ymchwiliadau ac achosion llys.



**PRIF DDYLETSWYDDAU (parhad)**

- Cynorthwyo gyda rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol i ddatblygwyr, y cyhoedd a holl ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth cynllunio.
- Cynorthwyo gyda sicrhau perthynas waith agos gydag Aelodau Lleol a Chynghorau Dinas / Tref / Cymuned a rhoi arweiniad iddynt ar faterion cynllunio fel bo angen.
- Cynorthwyo gyda sicrhau datblygiadau newydd cynaliadwy ac o ansawdd er mwyn cyfrannu at warchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a'r nod o greu cymunedau cynaliadwy.
- Mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Polisi Cynllunio, Rheolwr Cynllunio (Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth) a'r Pennaeth Cynorthwyol, cynorthwyo gyda gwaith y Gwasanaeth Polisi Cynllunio o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, i sicrhau Cynllun sydd yn cyd-fynd â'r gofynion statudol ac yn cyfarch anghenion cymunedau'r ardal yn gymdeithasol, economaidd ac yn amgylcheddol ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys:
  - sail tystiolaeth ar gyfer papurau testun
  - dogfennau a chyflwyniadau ar gyfer yr ymgynghoriadau cyhoeddus statudol yn ogystal â sesiynau briffio ar gyfer Aelodau Etholedig
  - tystiolaeth ar gyfer ei gyflwyno i'r archwiliad cyhoeddus
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig / newydd i gefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyfredol a'r Cynllun newydd.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi dogfennau polisi a strategaethau eraill trwy gynnig arweiniad ar addasrwydd safleoedd.



**PRIF DDYLETSWYDDAU (parhad)**

- Cydweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gynigion a cheisiadau cynllunio, sydd yn cynnwys cynlluniau sylweddol neu gymhleth eu natur, yn ogystal a gydag apeliadau cynllunio a gorfodaeth.
- Cynorthwyo gyda prosiectau a gwaith ymchwil sydd yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor (e.e. Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr) a cynrychioli Gwynedd ar dimau prosiect a chyfarfodydd sirol, traws-sirol, rhanbarthol a chenedlaethol, sydd yn cyffwrdd â maes gwaith a dyletswyddau y Tîm.
- Dirprwyo ar ran y  Swyddog Cynllunio ar faterion perthnasol i'r Tîm / Gwasanaeth.
- Cynorthwyo'r Swyddog Cynllunio a'r Uwch Swyddog Cynllunio i sicrhau fod dyletswyddau'r Gwasanaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Cynorthwyo gyda chyfrannu tuag at berfformiad y Gwasanaeth yn unol a'r trefniadau corfforaethol y Cyngor.
- Gweithredu yn unol ac egwyddorion sydd wedi eu sefydlu mewn deddfau perthnasol (e.e. Iechyd a Diogelwch, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Diogelu Data) a chadw atynt.

**AMGYLCHIADAU ARBENNIG (e.e. angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig a.y.y.b.)**

- Cyfarfodydd sydd tu allan i'r oriau gwaith arferol yn achlysurol.



# Manylion Person

**Nodweddion Personol**
**Hanfodol:**
Rydym yn chwilio am bobl sydd â’r agwedd a’r ymddygiad priodol fydd yn gallu arddangos eu hawydd a’u penderfyniad i weithio i lywodraeth leol.

- Gweithio gydag phobol yn effeithiol
- Cyfathrebu gyda hyder
- Cynllunio a threfnu yn effeithiol
- Cyflawni canlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth
- Dadansoddi a datrys problemau
- Bod yn hyblyg
- Ymrwymo i'r Cyngor
- Dangos y potensial i fod yn arweinydd ac i fod yn arbenigwr maes

Trwydded Yrru.



# Manylion Person (parhad)

**Cymwysterau a Hyfforddiant Perthnasol**
**Hanfodol:**
Meddu ar neu yn debygol o ennill gradd dosbarth 2:2 neu uwch.

Fe ddylai eich gradd fod mewn pwnc sydd yn berthnasol i'r maes. Rydych yn gymwys i ymgeisio hyd yn oed os ydych wedi graddio flynyddoedd yn ôl.

Meddu ar TGAU Gradd C neu uwch mewn Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

**Anghenion Ieithyddol**

**Gwrando a Siarad** – Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn.
Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**Darllen a Deall** - Gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol.
Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd.

**Ysgrifennu** – Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith)

**LEFEL UWCH ar gyfer pob elfen ieithyddol**

# Amserlen ac ymgeisio

I ymgeisio am y swydd, ewch i **www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi**

Gofynnwn i chi adolygu'r Swydd Ddisgrifiad a Manylion Person, a chwblhau eich cais yn unol â'r gofynion.

Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn 10am ar ddydd Gwener, 3 Mai 2024, gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal ar ddyddiad i'w gadarnhau yn fuan wedi hynny.

Cysylltwch â Keira Sweenie, Rheolwr Cynllunio (keiraannsweenie@gwynedd.llyw.cymru) os am sgwrs i drafod y swydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses, cysylltwch â DesgAdnoddauDynol@gwynedd.llyw.cymru



www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi

CYNGOR GWYNEDD